Hawdd ei Ddeall

LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care



# Maniffesto 2026

## Beth mae pobl yng Nghymru eisiau o'u gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Ionawr 2026

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Blaenoriaethau'r bobl: Etholiad y Senedd 2026.**




Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llais**. I gael gwybod mwy, neu i gael y ddogfen hon mewn fformat neu iaith wahanol, cysylltwch â:

**Gwefan:** llaiscymru.org

**E-bost:** ymholiadau@llaiscymru.org




Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Am y maniffesto yma ........ 4**

**Beth mae pobl yng Nghymru yn ei ddweud........ 7**

**Beth rydyn ni eisiau ........ 12**

1. Gofal cyfartal ........ 13

2. Cefnogaeth gynnar ........ 17

3. Gofal wedi ei seilio ar anghenion a dymuniadau pobl .. 22

4. Gwasanaethau sy’n gweithio’n dda gyda’i gilydd ........ 26

**Cysylltu â ni ........ 31**


**Llais** ydyn ni.




Rydyn ni’n gweithio i wneud yn siŵr bod beth rydych chi’n feddwl am iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei glywed.



Dyma ein **maniffesto**.




Maniffesto ydy dogfen sy’n disgrifio ein syniadau a’n nodau.




Mae Etholiad y Senedd ym mis Mai 2026. Dyma pryd rydyn ni'n pleidleisio dros bwy rydyn ni eisiau ein cynrychioli yn Senedd Cymru.




Rydyn ni eisiau i wleidyddion a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau feddwl am y maniffesto yma wrth wneud eu cynlluniau eu hunain.



Rydyn ni wedi gwrando ar filoedd o bobl ar draws Cymru.




Mae’r maniffesto yma wedi ei seilio ar beth  mae pobl wedi’u rhannu gyda ni. Mae’n ymwneud â:



- Beth sydd bwysicaf i bobl yng Nghymru.



- Beth fyddai’n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i’w bywydau.



- Beth sydd angen ei newid.

# Beth mae pobl yng Nghymru yn ei ddweud



Mae pobl ar draws Cymru wedi dweud wrthyn ni eu bod eisiau newid go iawn.




Maen nhw eisiau gweithredu maen nhw'n gallu eu gweld a'u teimlo yn eu bywydau bob dydd.



Mae pobl eisiau i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wneud beth maen nhw'n dweud y byddan nhw'n ei wneud.



Maen nhw eisiau i wasanaethau gael eu dal yn gyfrifol pan fydd pethau'n mynd o'i le.



Dim rhoi bai ar wasanaethau, ond gwneud yn siŵr bod newid go iawn yn digwydd.

Mae pobl eisiau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd:



- Yno pan fyddan nhw eu hangen.



- Yn gwrando ar beth sy'n bwysig.



- Yn eu trin nhw gyda pharch.



- Yn gweithio gyda'i gilydd i gadw pobl yn iach.



Mae pobl yng Nghymru wedi blino aros wythnosau am apwyntiad â meddyg teulu.




Maen nhw wedi blino ar aros misoedd, neu hyd yn oed flynyddoedd am lawdriniaeth.



Mae rhieni’n poeni am ba mor ddiogel a da ydy beichiogrwydd a gofal newydd-anedig.



Mae rhieni yn wynebu aros hir i gael help a chefnogaeth gyda phethau fel ADHD ac awtistiaeth.



Mae teuluoedd yn aml yn ddryslyd am lle i fynd am help.



Mae gofalwyr yn teimlo nad ydyn nhw'n cael eu cefnogi. Maen nhw'n aml yn cyrraedd pwynt torri cyn i help gyrraedd.




Mae llawer o ofalwyr di-dâl yn colli allan ar y gefnogaeth mae ganddyn nhw yr hawl i'w gael.



Mae pobl yn aros yn hir i gael help a thriniaeth ar gyfer eu hiechyd meddwl.



Ac mae'n anodd iawn cael help gydag iechyd meddwl i blant a phobl ifanc.



Mae llawer o bobl yn cael trafferth cael deintydd y GIG. Mae pethau'n mynd yn ddrwg iawn cyn i unrhyw un helpu.



Mae pobl sy'n barod i adael yr ysbyty yn aros yn rhy hir i'r gofal cywir fod ar gael er mwyn iddyn nhw allu mynd yn ôl adref.



Mae hyn yn digwydd ar draws Cymru. Mae pobl yn rhwystredig.



Mae pobl eisiau gwasanaethau yn agos at lle maen nhw'n byw. Maen nhw eisiau teimlo eu bod yn cael eu gwrando a'u cynnwys mewn penderfyniadau.

# Beth rydyn ni eisiau

Rydyn ni eisiau gweld 4 prif beth yn digwydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol:



**1. Gofal cyfartal**



**2. Cefnogaeth gynnar**



**3. Gofal yn seiliedig ar anghenion a dymuniadau pobl**



**4. Gwasanaethau sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd**



# 1. Gofal cyfartal



Mae pobl eisiau gallu cael yr un lefel o iechyd a gofal da. Dim gwahaniaeth lle maen nhw'n byw, neu pwy ydyn nhw.

Ar draws Cymru mae pobl yn cael trafferth gyda:



- Cael apwyntiadau.




- Trafnidiaeth i'w cludo i wasanaethau.



Mae pobl yn teimlo nad ydy gwasanaethau bob amser yn ateb eu hanghenion. Mewn rhai ardaloedd, mae'r problemau yma yn waeth.



Mae gan bobl sy'n byw yn yr ardaloedd tlotaf iechyd gwaeth. Ond fel arfer mae llai o feddygon teulu a nyrsys yn yr ardaloedd yma.



Mewn ardaloedd cefn gwlad, mae'n anodd cyrraedd gwasanaethau. Dydy trafnidiaeth gyhoeddus ddim yn ddigon da, ac mae'r gwasanaethau yn bell i ffwrdd.



Does dim rhaid i bethau fod fel hyn. Mae Cymru yn gallu dewis yn wahanol.

**Beth rydyn ni eisiau i lywodraeth Cymru ei wneud:**



- **Beth rydyn ni eisiau i lywodraeth Cymru ei wneud.**



Symud staff, arian a gwasanaethau i gefnogi'r cymunedau yma.



Felly mae gan bawb gyfle teg i gael bywyd hir ac iach.



- **Darparu trafnidiaeth well.**



Gan gynnwys gwell parcio, llwybrau bysiau, cludiant cleifion a chefnogaeth gyda chostau teithio.



Felly does neb yn colli gofal oherwydd nad ydyn nhw'n gallu cyrraedd yno.



- **Newid y rheolau fel bod plant a phobl ifanc yn gallu defnyddio ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion Llais.**



Fe ddylen ni allu cefnogi pawb gyda'u cwynion.



## 2. Cefnogaeth gynnar



Mae angen i ni wario arian ar bethau fydd yn helpu pobl i gadw'n iach, ac allan o'r ysbyty.

Ar draws Cymru, mae pobl yn dweud:



- Mae cefnogaeth yn aml yn dod yn rhy hwyr.



- Mae gofalwyr yn cyrraedd pwynt torri cyn i gymorth gyrraedd.




- Rydyn ni'n colli gwasanaethau cymunedol sy'n helpu i gadw pobl yn iach.




- Mae’n anodd cael cymorth cynnar ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl, a chyflyrau iechyd hirdymor.



- Mae teuluoedd yn cael eu gadael yn aros am gymorth maen nhw ei angen ar frys.



Rydyn ni’n aros nes bod pobl mewn sefyllfaoedd gwael iawn. Yn lle helpu pobl yn gynnar i gadw’n iach.



Rhaid i hyn newid.

**Beth rydyn ni eisiau i Lywodraeth Cymru ei wneud:**




- **Darparu mwy o staff gofal sylfaenol yn y lleoedd cywir – fel meddygon teulu, fferyllwyr a deintyddion.**



Gwella systemau apwyntiadau a'i gwneud hi'n haws cael help yn gynnar.



Gwneud hi'n haws cael help **cyn** i broblemau fynd yn ddrwg iawn.



- **Gwneud gofal seibiant yn hawl i ofalwyr di-dâl.**



Gofal seibiant ydy pan fydd rhywun sydd angen cymorth yn aros yn rhywle am gyfnod byr. I roi gorffwys i'w gofalwr.




Amddiffyn yr hawl yma gan ddefnyddio'r gyfraith. Felly mae gofalwyr di-dâl yn cael y gefnogaeth maen nhw ei angen i barhau i ofalu.



Rydyn ni angen arian, rheolau clir ac adrodd i wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd.



- **Darparu mwy o wasanaethau sy'n stopio problemau rhag gwaethygu.**



Gwneud yn siŵr bod arian ar gyfer pethau fel canolfannau dydd, gwasanaethau cyfeillio a gweithgareddau fel celfyddydau, ymarfer corff a chyngor ariannol.



Mae'r pethau yma yn gallu helpu pobl i gadw'n iach.



Cefnogi gwasanaethau lleol i weithio gyda'i gilydd, fel bod gan ein cymunedau wasanaethau wedi eu seilio ar eu hanghenion.



## 3. Gofal wedi ei seilio ar anghenion a dymuniadau pobl



Mae pobl eisiau cael eu clywed. Maen nhw eisiau bod yn rhan o benderfyniadau am eu gofal.



Yn rhy aml mae pobl yn teimlo nad oes neb yn gwrando arnyn  nhw.



Mae'n rhaid iddyn nhw fynd ar ôl gwasanaethau am ddiweddariadau. Dydy beth sy'n bwysig iddyn nhw ddim yn cael ei ystyried.



Dydy siaradwyr Cymraeg ddim bob amser yn cael gwasanaethau yn Gymraeg.



Mae pawb yn haeddu gonestrwydd, caredigrwydd a pharch.



Fe ddylid rhannu gwybodaeth gyda nhw'n glir.

**Beth rydyn ni eisiau i Lywodraeth Cymru ei wneud:**



- **Cael sgyrsiau 'Beth sy'n bwysig i chi' yn rhan o bob cynllun gofal y GIG.**




Gwneud hi'n gyfraith i ddechrau pob cynllun gofal gyda sgwrs am beth sy'n bwysig i chi.



- **Cael gwared ar dim newyddion yn newyddion da.**




Mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod pob person yn cael canlyniadau eu profion o fewn 2 wythnos.




Os ydy canlyniad y prawf yn dda neu’n ddrwg. Fe ddylai pobl gael gwybod heb orfod mynd I holi.




- **Darparu gwell gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol Cymraeg.**




Gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cael gwasanaethau yn Gymraeg ar bob cam o'u gofal.




Mae angen i ni osod targedau ar gyfer hyn ac ysgrifennu adroddiadau i edrych ar sut mae'n mynd.



## 4. Gwasanaethau sy’n gweithio’n dda gyda’i gilydd



Mae pobl wedi cael llond bol o ailadrodd eu straeon i wahanol dimau a gwasanaethau, oherwydd nad ydyn nhw’n siarad â’i gilydd.



Yn rhy aml, dydy meddygon teulu ac ysbytai ddim yn rhannu gwybodaeth bwysig â’i gilydd.




Mae hyn yn meddwl bod pobl yn gorfod mynd ar ôl diweddariadau ac yn teimlo ar goll.



Pan fydd pethau'n mynd o'i le, dydy pobl ddim yn gwybod sut i gwyno.



Does gan bobl ifanc sy'n symud i wasanaethau oedolion ddim unrhyw gefnogaeth.




Rhaid i'r llywodraeth wneud yn siŵr bod gwasanaethau yn gyfrifol am weithio gyda'i gilydd. Felly mae pobl yn cael gofal unedig.

**Beth rydyn ni eisiau i Lywodraeth Cymru ei wneud:**



- **Ei gwneud hi'n haws i wasanaethau weithio gyda'i gilydd.**



Gwario arian ar systemau cyfrifiadurol fel bod gwybodaeth yn gallu cael ei rhannu ddiogel.



Gwneud gweinyddiaeth a systemau yn haws i wasanaethau eu defnyddio.



Rhoi ddyletswydd ar fyrddau iechyd a chynghorau i weithio gyda'i gilydd. Rhoi amserlenni clir ac edrych I weld fod hyn yn digwydd.




- **Creu system gwyno sengl ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.**




Gwneud hi'n hawdd i bobl wneud cwynion pan mae gofal yn cael ei roi gan wahanol wasanaethau.




Gwneud y system gwynion yn haws trwy gael 1 ffordd glir i gwyno am yr holl wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



- **Cefnogi pobl ifanc sy’n symud o wasanaethau plant i oedolion.**



Ni ddylai unrhyw berson ifanc golli cefnogaeth dros nos pan fyddan nhw’n troi’n 18 oed.



Rhaid cael cefnogaeth pan yn  symud o wasanaethau plant i oedolion. Fe ddylai gofal barhau yn ystod y newid yma.

# Cysylltu â ni



Cysylltwch â ni os ydych chi eisiau dweud beth rydych chi'n feddwl am y maniffesto yma.




Neu os ydych chi eisiau'r maniffesto yma mewn fformat neu iaith wahanol.




Rydych chi'n gallu ein ffonio neu ysgrifennu i ni yn Gymraeg.



**Cyfeiriad:** Llais<br>
Adeiladau'r Goron<br>
Parc Cathays<br>
Brenin Edward VII Av<br>
Caerdydd<br>
CF10 3NQ



**Ffôn:** 02920 235 558



**Ebost:** ymholiadau@llaiscymru.org

**Gwefan:** llaiscymru.org

LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care